

## GWASANAETH SUL Y BLODAU 2017

### \*CYFRARCHIAD

Bore da i chi i gyd, a chroeso i'r gwasanaeth. Roeddwn wedi meddwl siarad am rywbeth arall y bore 'ma, ond gan ei fod hi'n Sul y Blodau, ac yn Basg arnom y penwythnos nesaf, dwi wedi newid meddwl. Heddiw fe fyddwn ni'n dilyn neges yr Apostol Luc yn y Beibl Cymraeg Newydd, a dilyn stori'r Pasg.

Fe gewn i emyn i ddechrau, ac wedyn gweddi, cyhoeddi a chasglu. Ac yna fe wna i ddarlenn hanes y Pasg yn ôl Luc i chi, gydag ambell gerdd o waith Gwenallt hwnt ag yma. Dim ond tri emyn sydd i'w canu - felly fydd Ann yn hapus!

\*EMYN 596 (TÔN 499) O disgyn, Ysbryd Glân

### \*GWEDDI

*Cuddiai ei hwyneb rhag mwrddwr y groes, Y cochni twym ar yr hoelion,  
Rhag y pigau drain yn trywanu'r sgalp, A'r twll rhwng asenau moelion;  
Eisteddai fel gweddw uwchben Calfari Yn y wisg dywyllaf o'i wardrob hi.*

*Safai uwch y milwyr a maen y bed Yr oedd Joseff newydd ei naddu;  
Ond y trydydd dydd hi a roddodd sbonc A rhoi liwt i'r clogyn claddu;  
Ewch, fore'r Pasg, i ben bryn a ban l'w gweled hi'n dawnsio fel miri-man.  
[GWENALLT - HEULWEN Y PASG]*

Diolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto fel teulu'r eglwys ar fore Sul ym Mhendref.

Diolchwn am fyd mor brydferth i fyw ynndo. Rhyfeddwn ar ogoniant natur. Rhyfeddwn at rhythm, traw a churiad, mynd a dod bywyd. Mynd a dod y tymhorau. Teimlwn fod y gaeaf yn ein gadael, a'r gwanwyn ar ei ffordd go iawn o'r diwedd. Diolchwn am wên y brialli, a'r cenin Pedr. Braf yw gweld y coed yn blaguro, yr wên yn tyfu, a'r haul yn codi fwyfwy'n uwch yn y nen.

Diolchwn am brydferthwch Cymru. Diolchwn am y mor, y glaniau, y mynyddoedd a'r dyffrynoedd. Yr afonydd, a'r nentydd; ein llynoedd. Diolchwn am gael crwydro ar Fryniau Clwyd, a'r Lwybr yr Arfordir, i Ben yr Wyddfa a Chader Idris, i Ben y Fan, a Llyn Y Fan Fawr.

Diolchwn am ein hanes. Am Bentre Ifan, Barclodiad y Gawres a Dun Llugwy. Am harddwch ein cestyll yn adfael, am ein mynachlogydd. Am ein hanes amaethyddol a diwydianol. Am ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd.

Diolchwn fod Cymru'n wlad heddychlon ar y cyfan. Lle mae pobl yn byw yn weddol rhydd, yn weddol ddiogel, yn weddol lewyrchus.

Ond gwelwn fod ein byd ddim yn berffaith o bell ffordd. Yn ein cymunedau ni yng Nghymru, mae bobl yn byw mewn tloedi. Eraill yn byw ag afiechyd, neu poen meddwl. Gwyddwn fod genym fel cymdeithas y gallu a'r adnoddau i wella bywyd i nifer helaeth o'r bobl yma; ond yn y byd sydd ohoni, nid ar wella bywydau'r tlotaf a'r salaf mae'r flaenoriaeth; ac mae hyn yn peri gofid a loes i ni.

Gwelwn, gwaetha'r modd, mai arian a masnach, marchnad rydd a chyfalafiaeth sydd ben heddiw. Gwelwn mai "twf economaidd", a thwf hunanol personol sy'n mynu'r flaenoriaeth. Ta waith pa faint bynag o bethau materol bywyd sydd genym, mae'n rhaid cael rhagor: y car newydd, y ffôn newydd, y teledu newydd. Sylweddwn mewn gwirionedd nad oes angen y car newydd, na'r ffôn newydd na'r teli. Ond anodd eu gwrthod mewn byd lle mae treuliant personol - consumption - yn domineiddio.

Gwelwn fod rhai yn drist ofnadwy yn y byd sydd ohoni. Yn ddifreintiedig. Ar goll. Heb obaith. Gwelwn fod rhai yn dioddef yn ofnadwy, heb fod unrhyw fai arnynt. Meddyliwn am bobl Syria heddiw. Meddyliwn am gyflwr meddyliol y gwleidyddion, y milwyr, y terfysgwyr sy'n gallu cyfiawnhau lladd â nwyon gwenwynig - â chydwybod clir. Meddyliwn am y gŵr wnaeth yrru ei gar dros y bont yn Llundain, a lladd pedwar o bobl diniwed, a niwedio sawl un arall.

Meddyliwn am y teuluoedd sy'n galaru heddiw oherwydd y fath weithred hyrt. Meddyliwn am wraig y llofrudd, a'i rieni, a'i blant. Sut mae'n nhw'n teimlo heddiw? Sut fath fywydau fydd gan y rhain tybed ar ol dioddef hyn i gyd?

Gwelwn fod newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol diweddar, fel ymddangosiad Trump ac UKIP a Brexit, a Marine La Pen yn Ffrainc, ond yn amlygu'r anobaith, a'r rwystredigaeth mae cyfran helaeth o bobl mewn gwledydd fel Cymru yn ei deimlo. Teimlwn yr anobaith ein hunain. Nid yw'n trefniantau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yn chwarae'n deg gyda chyfran helaeth o'r boblogaeth. A gwelwn yr angen amlwg am gymorth yn ein cymdogaethau, ein gwlad, ein byd. Yr angen am gymorth ar ein hysgolion, a'n system iechyd.

Gwelwn yr uchelwyr - gwŷr business a gwleidyddion - yn rhoi eu buddianau personol, hunanol – eu myfiaieth - o flaen tegwch, brawdgarwch a chydarddoldeb. Gwelwn y cyfoeth i gyd yn croni ym mhocedi'r ychydig rhai sydd â gormod o arian yn barod i wybod beth yn y byd i wneud â fe. Gwelwn tristwch eu bywydau nhw. Dim ond y geiniog i'w hysbrydoli. Dim ond materoliaeth. Dim byd mwy. Dim byd gwell. Meddyliwn am asyn yr hen Wenallt:

*Rhaid im, hen asyn druan, Ganu yn iach yn o fuan,  
Fel pob dyn a thylluan, Marw sydd raid i mi.  
Cyn mynd i nef asynod, Fe luniaf f'ewyllys hynod,  
Wele bob sill a dyfnod Â chwyr, O seliwch hi!  
Fy nghefn a rof i enwogion Cymru a'i holl daeogion,  
Fel y cariont eu cymdogion Y Saeson dylion, doeth.  
Fy nghoesau gwych a'm carnau l'r beirniaid wrth lunio'u barnau,  
Fel y ciciont hwy yn ddarnau Gorff pob llenyddiaeth goeth.  
Fy nghynffon hir i'r canonwyr, Y San Steffaniaid esbonwyr,  
Byddant yn well cynffonwyr I gawr santaidd Caergaint.  
Fy llygaid i'r gweinidogion, Gweision twt y cyfoethogion,  
Am na welant yr angenogion A swil gardodau'r saint.  
Fy nglustiau main i urddolion Bol bwysig y prifysgolion,  
Am na wrendy'r hen fydolion Ond ar gyffro bodio'r bunt.  
F'ymenydd i'r rhyfelgarwyr A'r crwsadlyd ariangarwyr,  
Mor wahanol i'r gweringarwyr Y gŵr a fi arnaf gynt.  
Gadawaf eich byd barbaraidd A'ch uffern dotaliaraidd,  
A mynd at fy mrodyr gwaraid: Marw sydd ddoeth i mi.  
[GWENALLT - TESTAMENT YR ASYN]*

Ar Sul y Blodau, cofiwn am yr Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem ar gefn yr ebol asyn. Nid fel tywysog, na chadfrydog, nac arweinydd pwerus. Ond fel dyn cyffredin, normal a'i neges anhygoel, dragwyddol. Cofiwn am ei fradychiad, a'i groeshoeliad. Teimlwn anobaith ei ddilynwyr. Ond wedyn cofiwn am fore'r trydydd dydd, am y maen wedi ei dreiglo, am y bedd gwag. Am y crwydryn ar ffordd Emaus. Am obaith newydd. Am atgyfodiad.

Gwyddwn o waelod calon, yn mer ein hesgyrn, fod yna ffordd well. Cofiwn neges y Beibl, bywyd Iesu, cyngor Paul. Cofiwn am lwybr ffydd, gobraith a chariad. Gwyddwn mai'r ffordd ymlaen yw rhoi'r olaf yn flaenaf, a'r blaenaf yn olaf. Drwy droi boch. Drwy fod yn Samariaid trugarog. Drwy gydfyw mewn heddwch gyda chenhedloedd eraill ynysoedd Prydain, a chenhedloedd Ewrop a'r byd. Drwy ranu gyda'r rhain i gyd. Drwy gyd-dynu nid gwrth-yru. Pa fantais arwahanu'n hunain, pan allwn ni gyd fod yn ffrindiau, yn gymdeithion, yn dilyn yr un ffordd? Pwy ag owns o Gristnogaeth, o gydwybod ac ewyllys da yn ei gorff allai ddymuno'r wahanol?

Cofiwn am ffrindiau Pendref sy'n methu bod yma'r bore 'ma. Mae'n meddyliu ni gyda phawb sydd mewn poen, neu'n poeni heddiw. Diolchwn am ymdrechion y rheini sy'n weithgar yn cynnal ein cymdeithas a'n diwylliant.

Chwiliwn am y nerth i fyw yng ngobaith yr atgyfodiad. I ddilyn y ffordd pob dydd o'n bywydau. I fyw yn dda. I fod yn gymdogion da, yn gyfeillion anwyl, diffuant. I fod yn aelodau cyfrifol o'n cymdeithas. I weld y golau. I deimlo'r fflam yn llosgi'n dyner, ac i ddarbwyllio eraill fod y fflam yn dal i losgi. I fod tuagat eraill, fel y byddem ni yn dymuno iddyn nhw fod tuagatom ni.

Gofynwn hyn yn enw'r un a'n dysgodd, pan yn gweddio, i ddweud gyda'n gilydd:

\*GYHOEDDI A CHASGLU

\*EMYN 550 (TÔN 465) Pan oedd Iesu dan yr hoelion

*Cyrhaeddiad gwir gredadun sydd eilradd  
Heb ladd pob pen blwyddyn;  
Gwewyr gyru'r Iesu gwyn  
Yw loes yr ebol asyn.*

Wedi dweud hyn aeth rhagddo ar ei ffordd i fyny i Jerwsalem, gan gerdded ar y blaen. Pan gyrhaeddodd yn agos i Bethffage a Bethania, ger y mynydd a elwir Olewydd, anfonodd ddau o'i ddisgyblion gan ddweud, "Ewch i'r pentref gyferbyn. Wrth ichwi ddod i mewn iddo cewch yno ebol wedi ei rwymo, un nad oes neb wedi bod ar ei gefn erioed. Gollyngwch ef a dewch ag ef yma. Ac os bydd rhywun yn gofyn i chwi, 'Pam yr ydych yn ei ollwng?', dywedwch fel hyn: 'Y mae ar y Meistr ei angen.'" Aeth y rhai a anfonwyd, a chael yr ebol, fel yr oedd ef wedi dweud wrthynt. Pan oeddent yn gollwng yr ebol, meddai ei berchenogion wrthynt, "Pam yr ydych yn gollwng yr ebol?" Atebasant hwythau, "Y mae ar y Meistr ei angen," a daethant ag ef at Iesu. Yna taflasant eu mentyll ar yr ebol, a gosod Iesu ar ei gefn. Wrth iddo fynd yn ei flaen, yr oedd pobl yn taenu eu mentyll ar y ffordd.

Pan oedd yn nesáu at y ffordd sy'n disgyn o Fynydd yr Olewydd, dechreuodd holl dyrfa ei ddisgyblion yn eu llawenydd foli Duw â llais uchel am yr holl wyrthiau yr oeddent wedi eu gweld, gan ddweud: "Bendigedig yw'r un sy'n dod yn frenin yn enw'r Arglwydd; yn y nef, tangnefedd, a gogoniant yn y goruchaf." Ac meddai rhai o'r Phariseaid wrtho o'r dyrfa, "Athro, cerydda dy ddisgyblion." Atebodd yntau, "Rwy'n dweud wrthyich, os bydd y rhain yn tewi, bydd y cerrig yn gweiddi."

Pan ddaeth yn agos a gweld y ddinas, wylodd drosti gan ddweud, "Pe bait tithau, y dydd hwn, wedi adnabod ffordd tangnefedd—ond na, fe'i cuddiwyd rhag dy lygaid. Oherwydd daw arnat ddyddiau pan fydd dy elynion yn codi clawdd yn dy erbyn, ac yn dy amgylchynu ac yn gwasgu arnat o bob tu. Fe'th ddymchwelant hyd dy seiliau, ti a'th blant o'th fewn; ni adawant faen ar faen ynot ti, oherwydd dy fod heb adnabod yr amser pan ymwelwyd â thi."

Aeth i mewn i'r deml a dechrau bwrw allan y rhai oedd yn gwerthu, gan ddweud wrthynt, "Y mae'n ysgrifenedig: " 'A bydd fy nhŷ i yn dŷ gweddi, ond gwnaethoch chwi ef yn ogof lladron.' " Yr oedd yn dysgu o ddydd i ddydd yn y deml. Yr oedd y prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, ynghyd ag arweinwyr y bobl, yn ceisio modd i'w ladd, ond heb daro ar ffordd i wneud hynny, oherwydd fod yr holl bobl yn gwrandao arno ac yn dal ar ei eiriau.

DYFOD MAB Y DYN

Dyfodiad Mab y Dyn: "Bydd arwyddion yn yr haul a'r lloer a'r sêr. Ar y ddaear bydd cenedloedd mewn cyfyngder yn eu pryder rhag trymru ac ymchwydd y môr. Bydd pobl yn llewygu gan ofn wrth ddisgwyl y pethau sy'n dod ar y byd; oherwydd ysgydwir nerthoedd y nefoedd. A'r pryd hwnnw gwelant Fab y Dyn yn dyfod mewn cwmwl gyda nerth a gogoniant mawr. Pan ddechreu'r pethau hyn ddigwydd, ymunionwch a chodwch eich pennau, oherwydd y mae eich rhyddhad yn agosáu."

Adroddodd ddameg wrthynt: "Edrychwch ar y ffigysbren a'r holl goed. Pan fyddant yn dechrau deilio, fe wyddoch eich hunain o'u gweld fod yr haf bellach yn agos. Felly chwithau, pan welwch y pethau hyn yn digwydd, byddwch yn gwybod fod teyrnas Dduw yn agos. Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, nid â'r genhedlaeth hon heibio nes i'r cwbl ddigwydd. Y nef a'r ddaear, ânt heibio, ond fy ngeiriau i, nid ânt heibio ddim.

"Cymerwch ofal, rhag i'ch meddyliau gael eu pylu gan ddiota a meddwi a gofalon bydol, ac i'r dydd hwnnw ddod arnoch yn ddisymwth fel magl; oherwydd fe ddaw ar bawb sy'n trigo ar wyneb y ddaear gyfan. Byddwch effro bob amser, gan ddeisyf am nerth i ddianc rhag yr holl bethau hyn sydd ar ddigwydd, ac i sefyll yng ngwydd Mab y Dyn." Yn ystod y dydd byddai'n dysgu yn y deml, ond byddai'n mynd allan ac yn treulio'r nos ar y mynydd a elwir Olewydd. Yn y bore bach deuai'r holl bobl ato yn y deml i wrando arno.

SWPERA

*le, gwledd briodas oedd y Swper Olaf Yn yr oruwchystafell am naw o'r gloch,  
Pen-blwydd y pla olaf cyn tyno o Jehofa Ei Israel rhwng muriau hallt y Môr Coch.  
Tynai Israel oddi am ei bys ei modrwy briodas Pan werthai i'r duwiau ei chorff fel hŵr.  
Ac ni fynai gamu tros derfynau ei thiriogaeth I sôn wrth ei chwiorydd am ogoniant ei Gŵr.  
le, gwledd briodas oedd y Swper Olaf Cyn marw ar y pren am dri o'r gloch,  
Gosod y fodrwy newydd cyn i'r Crist dynu'r Eglwys Gatholig rhwng muriau hallt y Môr Coch.  
[GWENALLT - Y SWPER OLAF]*

Yr oedd gwyl y Bara Croyw, y Pasg fel y'i gelwir, yn agosáu. Yr oedd y prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion yn ceisio modd i'w ladd, oherwydd yr oedd arnynt ofn y bobl. Ac aeth Satan i mewn i Jwdas, a elwid Iscariot, hwnnw oedd yn un o'r Deuddeg. Aeth ef a thrafod gyda'r prif offeiriaid a swyddogion gwarchodlu'r deml sut i fradychu Iesu iddynt. Cytunasant yn llawen iawn i dalu arian iddo. Cydsyniodd yntau, a dechreuodd geisio cyfle i'w fradychu ef iddynt heb i'r dyrfa wybod.

Daeth dydd gwyl y Bara Croyw, pryd yr oedd yn rhaid lladd oen y Pasg. Anfonodd ef Pedr ac Ioan gan ddweud, "Ewch a pharatochwch inni gael bwyta gwledd y Pasg." Meddent hwy wrtho, "Ble yr wyt ti am inni ei pharatoi?" Atebodd hwy, "Wedi i chwi fynd i mewn i'r ddinas fe ddaw dyn i'ch cyfarfod, yn cario stenaïd o ddwr. Dilynwch ef i'r tŷ yr â i mewn iddo, a dywedwch wrth ŵr y tŷ, 'Y mae'r Athro yn gofyn i ti, 'Ble mae f'ystafell, lle yr wyf i fwyta gwledd y Pasg gyda'm disgyblion?' ' Ac fe ddengys ef i chwi oruwchystafell fawr wedi ei threfnu; yno paratowch." Aethant ymaith, a chael fel yr oedd ef wedi dweud wrthynt, a pharatoesant wledd y Pasg.

Pan ddaeth yr awr, cymerodd ei le wrth y bwrdd, a'r apostolion gydag ef. Meddai wrthynt, "Mor daer y bŵm yn dyheu am gael bwyta gwledd y Pasg hwn gyda chwi cyn imi ddiodeff! Oherwydd rwy'n dweud wrthynt na fwytâf hi byth hyd nes y cyflawnir hi yn nheyrnas Dduw." Derbyniodd gwpan, ac wedi diolch meddai, "Cymerwch hwn a rhannwch ef ymhlith eich gilydd. Oherwydd rwy'n dweud wrthynt nad yfaf o hyn allan o ffrwyth y winwydden hyd nes y daw teyrnas Dduw." Cymerodd fara, ac wedi diolch fe'i torrodd a'i roi iddynt gan ddweud, "Hwn yw fy nghorff, sy'n cael ei roi er eich mwyn chwi; gwnewch hyn er cof amdanaf." Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan ar ôl swper gan ddweud, "Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i, sy'n cael ei dywallt er eich mwyn chwi. Ond dyma law fy mradychwr gyda'm llaw i ar y bwrdd. Oherwydd y mae Mab y Dyn yn wir yn mynd ymaith, yn ôl yr hyn sydd wedi ei bennu, ond gwae'r dyn hwnnw y bradychir ef ganddo!" A dechreusant ofyn ymhlith ei gilydd p'run ohonynt oedd yr un oedd am wneud hynny.

#### GWEDDIO AR FYNYDD YR OLEWYDD

Cododd cweryl hefyd yn eu plith: p'run ohonynt oedd i'w gyfrif y mwyaf? Meddai ef wrthynt, "Y mae brenhinoedd y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai sydd ag awdurdod drostynt yn cael eu galw yn gymwynaswyr. Ond peidiwch chwi â gwneud felly. Yn hytrach, bydded y mwyaf yn eich plith fel yr ieuengaf, a'r arweinydd fel un sy'n gweini. Pwy sydd fwyaf, yr un sy'n eistedd wrth y bwrdd neu'r un sy'n gweini? Onid yr un sy'n eistedd? Ond yr wyf fi yn eich plith fel un sy'n gweini. Chwi yw'r rhai sydd wedi dal gyda mi trwy gydol fy nhrealion. Ac fel y cyflwynodd fy Nhad deyrnas i mi, yr wyf finnau yn cyflwyno un i chwi; Cewch fwyta ac yfed wrth fy mwrdd i yn fy nheyrnas i, ac eistedd ar orseddau gan farnu deuddeg llwyth Israel.

"Simon, Simon, dyma Satan wedi eich hawlio chwi, i'ch gogrwn fel yd; ond yr wyf fi wedi deisyf drosot ti na fydd dy ffydd yn pallu. A thithau, pan fyddi wedi dychwelyd ataf, cadarnha dy frodyr." Meddai ef wrtho, "Arglwydd, gyda thi rwy'n barod i fynd i garchar ac i farwolaeth." "Rwy'n dweud wrthynt, Pedr," atebodd ef, "ni chân y ceiliog heddiw cyn y byddi wedi gwadu deirgwaith dy fod yn fy adnabod i."

Yna aeth allan, a cherdded yn ôl ei arfer i Fynydd yr Olewydd, a'i ddisgyblion hefyd yn ei ddilyn. Pan gyrhaeddodd y fan, meddai wrthynt, "Gweddïwch na ddewch i gael eich profi." Yna ymneilltuodd Iesu oddi wrthynt tuag ergyd carreg, a chan benlinio dechreuodd weddi gan ddweud, "O Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Ond gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i." Ac ymddangosodd angel o'r nef iddo, a'i gyfnerthu. Gan gymaint ei ing, yr oedd yn gweddïo'n ddwysach, ac yr oedd ei chwys fel dafnau o waed yn diferu ar y ddaear. Cododd o'i weddi a mynd at ei ddisgyblion a'u cael yn cysgu o achos eu gofid. Meddai wrthynt, "Pam yr ydych yn cysgu? Codwch, a gweddïwch na ddewch i gael eich profi."

#### GWADU, BRADYCHU A DEDDFRYDU

*Rhaid oedd i'r cwmni gwirion wrth dy fedr I gadw'r cyfri ac i gasglu'r pres,  
Ni hidiai Ioan ac ni faliai Pedr, Rhaid oedd wrth aur i ddod â Duw yn nes.  
Yr elusenau aml a odrai'r gist, A'r Pasg a'i gwagiodd, gyda'i win a'i fwyd,  
Ac ar y farchnad gwerthiast ti dy Grist Gan wybod y ddi'n rhydd o'u magl a'u rhwyd.  
Gresyn dy grogi cyn codi Mab y Dyn A rhanu eilwaith win a bara croyw,  
Y groes yn codi'r brad oddi ar dy fin, A golchi d'arian brwnt yn berffaith loyw;  
Gallasit fel Pedr wylu'n chwerw dost A gweld y gist yn llawn ar Bentecost.  
[GWENALLT - JIWDAS ISCARIOT]*

Tra oedd yn dal i siarad, fe ymddangosodd tyrfa, a Jwdas, fel y'i gelwid, un o'r Deuddeg, ar ei blaen. Nesaodd ef at Iesu i'w gusanu. Meddai Iesu wrtho, "Jwdas, ai â chusan yr wyt yn bradychu Mab y Dyn?" Pan welodd ei ddilynwyr beth oedd ar ddiwydd, meddent, "Arglwydd, a gawn ni daro â'n cleddyfau?" Trawodd un ohonynt wâs yr archoffeiriad a thorri ei

glust dde i ffwrdd. Atebodd Iesu, "Peidiwch! Dyna ddigon!" Cyffyrddodd â'r glust a'i hadfer. Yna meddai Iesu wrth y rhai oedd wedi dod yn ei erbyn, y prif offeiriaid a swyddogion gwarchodlu'r deml a'r henuriaid, "Ai fel at leidr, â chleddyfau a phastynau, y daethoch allan? Er fy mod gyda chwi beunydd yn y deml, ni wnaethoch ddim i'm dal. Ond eich awr chwi yw hon, a'r tywyllwch biau'r awdurdod."

Daliasant ef, a mynd ag ef ymaith i mewn i dy'r archoffeiriad. Yr oedd Pedr yn canlyn o hirbell. Cyneuodd rhai dân yng nghanol y cyntedd, ac eistedd gyda'i gilydd. Eisteddodd Pedr yn eu plith. Gwelodd morwyn ef yn eistedd wrth y tân, ac wedi syllu arno meddai, "Yr oedd hwn hefyd gydag ef." Ond gwadodd ef a dweud, "Nid wyf fi'n ei adnabod, ferch." Yn fuan wedi hynny gwelodd un arall ef, ac meddai, "Yr wyt tithau yn un ohonynt." Ond meddai Pedr, "Nac ydwyf, ddyn." Ymhen rhyw awr, dechreuodd un arall daeru, "Yn wir yr oedd hwn hefyd gydag ef, oherwydd Galilead ydyw." Meddai Pedr, "Ddyn, nid wyf yn gwybod am beth yr wyt ti'n sôn." Ac ar unwaith, tra oedd yn dal i siarad, canodd y ceiliog. Troes yr Arglwydd ac edrych ar Pedr, a chofiodd ef air yr Arglwydd wrtho, "Cyn i'r ceiliog ganu heddiw, fe'm gwedi i deirgwaith." Aeth allan ac wylo'n chwerw.

***Coron o ddrain, milain a-men, cri craig  
Crist ar dori bargaen;  
Ceiliog, teir rhan cân cynen;  
Canwriad, a brad ar bren.***

Yr oedd gwarcheidwaid Iesu yn ei watwar a'i guro. Rhoesant orchudd amdano, a dechrau ei holi gan ddweud, "Proffwyda! Pwy a'th drawodd?" A dywedasant lawer o bethau cableddus eraill wrtho.

Pan ddaeth yn ddydd, cyfarfu Cyngor henuriaid y bobl, y prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion. Daethant ag ef gerbron eu brawdlys gan ddweud, "Os ti yw'r Meseia, dywed hynny wrthym." Meddai yntau wrthynt, "Os dywedaf hynny wrthyf, fe wrthodwch gredu; ac os holaf chwi, fe wrthodwch ateb. O hyn allan bydd Mab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw Gallu Duw." Meddent oll, "Ti felly yw Mab Duw?" Atebodd hwy, "Chwi sy'n dweud mai myfi yw." Yna meddent, "Pa raid inni wrth dystiolaeth bellach? Oherwydd clywsom ein hunain y geiriau o'i enau ef."

Codasant oll yn dyrfa a dod ag ef gerbron Pilat. Dechreusant ei gyhuddo gan ddweud, "Cawsom y dyn hwn yn arwain ein cenedl ar gyfeiliorn, yn gwahardd talu trethi i Gesar, ac yn honni mai ef yw'r Meseia, sef y brenin." Holodd Pilat ef: "Ai ti yw Brenin yr Iddewon?" Atebodd yntau ef, "Ti sy'n dweud hynny." Ac meddai Pilat wrth y prif offeiriaid a'r tyrfaeodd, "Nid wyf yn cael dim trosedd yn achos y dyn hwn." Ond dal i daeru yr oeddent: "Y mae'n cyffroi'r bobl â'i ddysgeidiaeth, trwy Jwdea gyfan. Dechreuodd yng Ngallilea, ac y mae wedi cyrraedd hyd yma."

***Ger llys Rhufeinig, unig yw yno;  
Ag Iddewig nawdd, hawdd ei gyhuddo;  
"Ewch, ewch a chroesholiwch o" yw dedfryd  
Hen walch di-olud yn golchi dwylo.***

Galwodd Pilat y prif offeiriaid ac aelodau'r Cyngor a'r bobl ynghyd, ac meddai wrthynt, "Daethoch â'r dyn hwn ger fy mron fel un sy'n arwain y bobl ar gyfeiliorn. Yn awr, yr wyf fi wedi holi'r dyn hwn yn eich gwydd chwi, a heb gael ei fod yn euog o unrhyw un o'ch cyhuddiadau yn ei erbyn; ac ni chafodd Herod chwaith, oherwydd cyfeiriodd ef ei achos yn ôl atom ni. Fe welwch nad yw wedi gwneud dim sy'n haeddu marwolaeth. Gan hynny, mi ddysgaf wers iddo â'r chwip a'i ollwng yn rhydd." Ond gwaeddasant ag un llais, "Ymaith â hwn, rhyddha Barabbas inni." Dyn oedd hwnnw wedi ei fwrw i garchar o achos gwrthryfel a llofruddiaeth oedd wedi digwydd yn y ddinas. Drachefn anerchodd Pilat hwy, yn ei awydd i ryddhau Iesu, ond bloeddiasant hwy, "Croeshoelia ef, croeshoelia ef." Y drydedd waith meddai wrthynt, "Ond pa ddrwg a wnaeth ef? Ni chefais unrhyw achos i'w ddedfrydu i farwolaeth. Gan hynny, mi ddysgaf wers iddo â'r chwip a'i ollwng yn rhydd." Ond yr oeddent yn pwyso arno â'u crochlefain byddarol, gan fynnu ei groeshoelio ef, ac yr oedd eu bonllefau yn ennill y dydd. Yna penderfynodd Pilat ganiatáu eu cais; rhyddhaodd yr hwn yr oeddent yn gofyn amdano, y dyn oedd wedi ei fwrw i garchar am wrthryfela a llofruddio, a thraddododd Iesu i'w hewyllys hwy.

CROESHOLIO A MARW

***Awr trallod defod difa, awr y gwyll  
Er gwella cnwd Adda;  
Eiliad ofn y Bugail Da  
Yn glwyf oer ar Galfaria.***

Wedi mynd ag ef ymaith gafaelsant yn Simon, brodor o Cyrene, a oedd ar ei ffordd o'r wlad, a gosod y groes ar ei gefn, iddo ei chario y tu ôl i Iesu. Yr oedd tyrfa fawr o'r bobl yn ei ddilyn, ac yn eu plith wragedd yn galaru ac yn wylofain drosto. Troes Iesu atynt a dweud, "Ferched Jerwsalem, peidiwch ag wylo amdanaf fi; wylwch yn hytrach amdanoch eich hunain ac am eich plant. Oherwydd dyma ddyddiau yn dod pan fydd pobl yn dweud, 'Gwyn eu byd y gwragedd diffwrwyth a'r crothau nad esgorasant a'r bronnau na roesant sugn.' Y pryd hwnnw bydd pobl yn dechrau: " 'Dweud wrth y mynyddoedd, "Syrthiwch arnom", ac wrth y brynau, "Gorchuddiwch ni." ' "Oherwydd os gwneir hyn i'r pren glas, pa beth a ddigwydd i'r pren crin?"

Daethpwyd ag eraill hefyd, dau droseddwr, i'w dienyddio gydag ef. Pan ddaethant i'r lle a elwir Y Benglog, yno croeshoeliwyd ef a'r troseddwr, y naill ar y dde a'r llall ar y chwith iddo. Ac meddai Iesu, "O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud." A bwriasant goelbrennau i rannu ei ddrillad. Yr oedd y bobl yn sefyll yno, yn gwyllo. Yr oedd aelodau'r Cyngor hwythau yn ei wawdio gan ddweud, "Fe achubodd eraill; achubed ei hun, os ef yw Meseia Duw, yr Etholedig." Daeth y milwyr hefyd ato a'i watwar, gan gynnig gwin sur iddo, a chan ddweud, "Os ti yw Brenin yr Iddewon, achub dy hun." Yr oedd hefyd arysgrif uwch ei ben: "Hwn yw Brenin yr Iddewon."

Yr oedd un o'r troseddwr ar ei groes yn ei gablu gan ddweud, "Onid ti yw'r Meseia? Achub dy hun a ninnau." Ond atebodd y llall, a'i geryddu: "Onid oes arnat ofn Duw, a thithau dan yr un ddedfryd? I ni, y mae hynny'n gyfiawn, oherwydd haeddiant ein gweithredoedd sy'n dod inni. Ond ni wnaeth hwn ddim o'i le." Yna dywedodd, "Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas ." Atebodd yntau, "Yn wir, rwy'n dweud wrthynt, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys."

*Gaeaf santaidd sydd yn y byd yn yr Wythnos Fawr, Y ddaear yn weddw, y nefoedd yn grin,  
Sŵn ffrewyllu a hoelio ar y finegraidd wynt; A'r tywyllwch yn tagu Mab y Dyn.  
Ond y gwanwyn sy'n dod, ie, dau wanwyn i'r byd O'r dyfnderoedd ar y trydydd bore-ddydd;  
Fe ddaw'r lili, y briallu a'r cenin Pedr Ar ôl y Gwardwr o Aiff y pridd.  
Gwyrdd a gwyn yw'r gorfoledd, a melyn yw'r mawl Am i'r Adda newydd godi o'i fedd yn fyw;  
A'r iorwg, gan ymglymu am y pren fel yr hen sarff, Sydd i ni yn fywyd tragwyddol gyda Duw.  
[GWENALLT - SUL Y PASG]*

Erbyn hyn yr oedd hi tua hanner dydd. Daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn, a'r haul wedi diffodd. Rhwygwyd llen y deml yn ei chanol. Llefodd Iesu â llef uchel, "O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd." A chan ddweud hyn bu farw. Pan welodd y canwriad yr hyn oedd wedi digwydd, dechreuodd ogoneddu Duw gan ddweud, "Yn wir, dyn cyfiawn oedd hwn." Ac wedi gweld yr hyn a ddigwyddodd, troes yr holl dyrfaoedd, a oedd wedi ymgynnull i wyllo'r olygfa, tuag adref gan guro eu bronnau. Yr oedd ei holl gyfeillion, ynghyd â'r wragedd oedd wedi ei ddilyn ef o Galilea, yn sefyll yn y pellter ac yn gweld y pethau hyn.

*Euthum am dro brynhawn y Groglith Ar hyd caeau fferm i weld yr ŵyn;  
Gweled ŵyn cyntaf y tymor, Y tameidiau o ddiniweidrwydd a direidi mewn crwyn;  
Ac yno yr oedd deuddeg, y ŵyn a defaid A hwrdd, wedi eu gosod eu hunain, bob un,  
Fel pe byddai arlunydd wedi bod yno yn eu trefnu Cyn peintio eu llun.*

*Yn sydyn i'w canol daeth y Bugail barfog, Ac ni wyddwn i o ble y daeth ef;  
Ai o ganol darlun gan artist yn Ravena, Ai o ganol ontario gan Bach,  
Ai o benod yn Efengyl Ioan, Ai o ganol y nef.*

*Yn raddol troes ei fugeilffon yn groesbren, A chlywais y drain y gweiddi yn Ei ben,  
A'r hoelion yn crochleffain yn Ei ddwylo a'i draed: A gwelais wedyn y deuddeg, yn ŵyn a defaid  
A hwrdd dianghenraid a diddrysi, Yn goch gan y gwaed.  
[GWENALLT - Y GROGLITH]*

Yr oedd dyn o'r enw Joseff, aelod o'r Cyngor a dyn da a chyfiawn, nad oedd wedi cydsynio â'u penderfyniad a'u gweithred hwy. Yr oedd yn hanu o Arimathea, un o drefi'r Iddewon, ac yn disgwyl am deyrnas Dduw. Aeth hwn at Pilat a gofyn am gorff Iesu. Wedi ei dynnu ef i lawr a'i amdó i mewn lliain, gosododd ef mewn bedd wedi ei naddu, lle nad oedd neb hyd hynny wedi gorwedd. Dydd y Paratoad oedd hi, ac yr oedd y Saboth ar ddechrau. Fe ddilynodd y gwragedd oedd wedi dod gyda Iesu o Galilea, a gwelsant y bedd a'r modd y gosodwyd ei gorff. Yna aethant yn eu holau i baratoi peraroglau ac eneiniau.

*Daw toriad gwawr, a daw'r dydd - daw ysbryd  
Oed drud bore'r trydydd;  
Gwyrthiol awr, â llaw'r llywydd  
Eto'n rhwygo'r main yn rhydd.*

Ar y Saboth buont yn gorffwys yn ôl y gorchymyn. Ar y dydd cyntaf o'r wythnos, ar doriad gwawr, daethant at y bedd gan ddwyn y peraroglau yr oeddent wedi eu paratoi. Cawsant y maen wedi ei dreiglo i ffwrdd oddi wrth y bedd, ond pan aethant i mewn ni chawsant gorff yr Arglwydd Iesu. Yna, a hwythau mewn penbleth ynglyn â hyn, dyma ddau ddyn yn ymddangos iddynt mewn gwisgoedd llachar. Daeth ofn arnynt, a phlygasant eu hwynebau tua'r ddaear. Meddai'r dynion wrthynt, "Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw? Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi. Cofiwch fel y llefarodd wrthynt tra oedd eto yng Ngalilea, gan ddweud ei bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei draddodi i ddwylo pechaduriaid, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd atgyfodi." A daeth ei eiriau ef i'w cof. Dychwelsant o'r bedd, ac adrodd yr holl bethau hyn wrth yr un ar ddeg ac wrth y lleill i gyd. Mair Magdalen a Joanna a Mair mam Iago oedd y gwragedd hyn; a'r un pethau a ddywedodd y gwragedd eraill hefyd, oedd gyda hwy, wrth yr apostolion. Ond i'w tyb hwy, lol oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwragedd. Ond cododd Pedr a rhedeg at y bedd; plygodd i edrych, ac ni welodd ddim ond y llieiniau. Ac aeth ymaith, gan ryfeddu wrtho'i hun at yr hyn oedd wedi digwydd.

CERDDED, YMDDANGOS AC ESGYN

*O dudalen gau bresenol - y trof  
I gof ryw hen gyfrol;  
Ger Emaus, awgrym ysol  
Gan grwydryn, fod Iesu'n ol.*

Yn awr, yr un dydd, yr oedd dau ohonynt ar eu ffordd i bentref, oddeutu un cilomedr ar ddeg o Jerwsalem, o'r enw Emaus. Yr oeddent yn ymddiddan â'i gilydd am yr holl ddigwyddiadau hyn. Yn ystod yr ymddiddan a'r trafod, nesaodd Iesu ei hun atynt a dechrau cerdded gyda hwy, ond rhwystrwyd eu llygaid rhag ei adnabod ef. Meddai wrthynt, "Beth yw'r sylwadau hyn yr ydych yn eu cyfnewid wrth gerdded?" Safasant hwy, a'u digalondid yn eu hwynebau. Atebodd yr un o'r enw Cleopas, "Rhaid mai ti yw'r unig ymwelydd â Jerwsalem nad yw'n gwybod am y pethau sydd wedi digwydd yno y dyddiau diwethaf hyn." "Pa bethau?" meddai wrthynt. Atebasant hwythau, "Y pethau sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth, dyn oedd yn broffwyd nerthol ei weithredoedd a'i eiriau yng ngwydd Duw a'r holl bobl. Traddododd ein prif offeiriaid ac aelodau ein Cyngor ef i'w ddedfrydu i farwolaeth, ac fe'i croeshoeliasant. Ein gobaith ni oedd mai ef oedd yr un oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid, ond at hyn oll, heddiw yw'r trydydd dydd er pan ddigwyddodd y pethau hyn. Er hynny, fe'n syfrdanwyd gan rai gwragedd o'n plith; aethant yn y bore bach at y bedd, a methasant gael ei gorff, ond dychwelsant gan daeru eu bod wedi gweld angylion yn ymddangos, a bod y rheini'n dweud ei fod ef yn fyw. Aeth rhai o'n cwmni allan at y bedd, a'i gael yn union fel y dywedodd y gwragedd, ond ni welsant mohono ef." Meddai Iesu wrthynt, "Mor ddiodeall ydych, ac mor araf yw eich calonnau i gredu'r cwbl a lefarodd y proffwydi! Onid oedd yn rhaid i'r Meseia ddiodeff y pethau hyn, a mynd i mewn i'w ogoniant?" A chan ddechrau gyda Moses a'r holl broffwydi, dehonglodd iddynt y pethau a ysgrifennwyd amdano ef ei hun yn yr holl Ysgrhythurau.

Wedi iddynt nesáu at y pentref yr oeddent ar eu ffordd iddo, cymerodd ef arno ei fod yn mynd ymhellach. Ond meddent wrtho, gan bwysu arno, "Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben." Yna aeth i mewn i aros gyda hwy. Wedi cymryd ei le wrth y bwrdd gyda hwy, cymerodd y bara a bendithio, a'i dorri a'i roi iddynt. Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef. A diflannodd ef o'u golwg. Meddent wrth ei gilydd, "Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrhythurau inni?" Codasant ar unwaith a dychwelyd i Jerwsalem. Cawsant yr un ar ddeg a'u dilynwyd wedi ymgynnull ynghyd ac yn dweud fod yr Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi, ac wedi ymddangos i Simon. Adroddasant hwythau yr hanes am eu taith, ac fel yr oeddent wedi ei adnabod ef ar doriad y bara.

Wrth iddynt ddweud hyn, ymddangosodd ef yn eu plith, ac meddai wrthynt, "Tangnefedd i chwi." Yn eu dychryn a'u hofn, yr oeddent yn tybied eu bod yn gweld ysbryd. Gofynnodd iddynt, "Pam yr ydych wedi cynhyrfu? Pam y mae amheuan yn codi yn eich meddyliau? Gwelwch fy nwylo a'm traed; myfi yw, myfi fy hun. Cyffyrddwch â mi a gwelwch, oherwydd nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn fel y canfyddwch fod gennyf fi." Wrth ddweud hyn dangosodd iddynt ei ddwylo a'i draed. A chan eu bod yn eu llawenydd yn dal i wrthod credu ac yn rhyfeddu, meddai wrthynt, "A oes gennyh rywbeth i'w fwyta yma?" Rhoesant iddo ddarn o bysgodyn wedi ei rostio. Cymerodd ef, a bwyta yn eu gwydd.

Dywedodd wrthynt, "Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthynt pan oeddwn eto gyda chwi: ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi a'r salmau." Yna agorodd eu meddyliau, iddynt ddeall yr Ysgrhythurau. Meddai wrthynt, "Fel hyn y mae'n ysgrifenedig: fod y Meseia i ddiodeff, ac i atgyfodi oddi

wrth y meirw ar y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd, gan ddechrau yn Jerwsalem. Chwi yw'r tystion i'r pethau hyn. Ac yn awr yr wyf fi'n anfon arnoch yr hyn a addawodd fy Nhada; chwithau, arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth."

*Bargen anghygoel croesholiad yw ffordd  
Ffydd, gobaith a chariad;  
Llyw ysbryd Duw, bara'r Tad;  
Min y gwin, gwefr esgyniad.*

Aeth â hwy allan i gyffiniau Bethania. Yna cododd ei ddwylo a'u bendithio. Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef. Wedi iddynt ei addoli ar eu gliniau, dychwelsant yn llawen iawn i Jerwsalem. Ac yr oeddent yn y deml yn ddi-baid, yn bendithio Duw.

*Cyrhaeddiad gwir gredadun sydd eilradd  
Heb ladd pob pen blwyddyn;  
Gwewyr gyru'r Iesu gwyn  
Yw loes yr ebol asyn.*

*Ger llys Rhufeinig, unig yw yno;  
Ag lldewig nawdd, hawdd ei gyhuddo;  
"Ewch, ewch a chroesholiwch o" yw dedfryd  
Hen walch di-olud yn golchi dwylo.*

*Awr trallod defod difa, awr y gwyll  
Er gwella cnwd Adda;  
Eiliad ofn y Bugail Da  
Yn glwyf oer ar Galfaria.*

*Coron o ddrain, milain a-men, cri craig  
Crist ar dori bargaen;  
Ceiliog, teir rhan cân cynen;  
Canwriad, a brad ar bren.*

*Daw toriad gwawr, a daw'r dydd - daw ysbryd  
Oed drud bore'r trydydd;  
Gwyrthiol awr, â llaw'r llywydd  
Eto'n rhwygo'r main yn rhydd.*

*O dudalen gau bresenol - y trof  
I gof ryw hen gyfrol;  
Ger Emaus, awgrym ysol  
Gan grwydryn, fod Iesu'n ol.*

*Bargen anghygoel croesholiad yw ffordd  
Ffydd, gobaith a chariad;  
Llyw ysbryd Duw, bara'r Tad;  
Min y gwin, gwefr esgyniad.*

Er mwyn Ei Enw, A-men.

\*EMYN 498 (TÔN 420) Heddiw'r ffynon a agorwyd

\*Y FENDITH: Bydden i ras yr Iesu, cariad Duw, a cymdeithas y ffordd fod gyda ni gyd. A-men.